

Tyfu Cymru: Taflen Cyngor Technegol Tyfu Blodau'r Haul

Cyflwyniad

Gall blodau'r haul fod yn ychwanegiad deniadol iawn i amrywiaeth eang o fusnesau. Gallant gael eu gwerthu ochr yn ochr ag amrywiaeth o gynnyrch eraill, ac oherwydd y tymor blodeuo hir, gall hyn hyd yn oed ymestyn i'r hydref i gyd-fynd â phwmpenni adeg Calan Gaeaf. Gellir torri pennau yn ôl yr angen a'u gwerthu'n unigol wrth ymyl tiliau ar gyfer cnydau eraill. Ar gyfer safleoedd lle mae nifer yr ymwelwyr yn bwysig – pigo eich ffrwythau eich hun er enghraifft – gellir gwerthu blodau'r haul naill ai fel cynnyrch 'pigo eich hun' neu eu tyfu fel cefndir ar gyfer ffotograffau. Gallant hefyd fod yn llwybr hawdd i flodau wedi'u torri fel cnwd cychwynnol i adeiladu sylfaen o gwsmeriaid. Yn ogystal â chnwd sy'n cael ei dyfu'n yr haf, gall blodau'r haul elwa o gael eu tyfu o dan dwnnel, gan gynnig tymor hirach oherwydd mwy o ddiogelwch rhag difrod gwynt a glaw.



Amserlen a Chynllunio

Gellir cynnwys blodau'r haul mewn amrywiaeth o amserlenni i weddu i wahanol fodelau marchnata. Mae blodau'r haul sy'n cael eu plannu ddiwedd Ebrill yn debygol o ddangos ffurfiant blodau ganol Gorffennaf os yw'r amodau yn ffafriol, neu'n hwyrach hyd at ddechrau Awst am y mathau sydd â phennau mwy. Gellir cynaeafu'r blodau yn gyson drwy blannu blodau newydd bob 7 - 14 diwrnod yn ystod y gwanwyn. Bydd planhigion sy'n cael eu hau ddechrau Ebrill yn barod i'w cynaeafu mewn 14-17 wythnos yn dibynnu ar gyltifer ac amodau, a byddant yn barod i'w cynaeafu rhwng canol mis Awst a dechrau mis Medi.

Dewis Safle

Mae gwreiddiau dwfn gan flodau'r haul a bydd ganddyn nhw anghenion dŵr a maeth sylweddol er y gellir tyfu blodau'r haul mewn ystod eang o fathau o bridd. Fodd bynnag, mae blodau'r haul yn annhebygol o fod angen llawer o nitrogen (os o gwbl) er efallai y bydd angen rheoli microfaethynnau yn ofalus, yn enwedig boron, fel y trafodir isod. Byddan nhw'n tyfu orau mewn pridd sydd wedi'i ddraenio'n dda sy'n cynhesu'n gyflym yn y gwanwyn. Gall blodau'r haul oddef sychder, sy'n golygu eu bod yn addas i'w defnyddio ar briddoedd sy'n gallu gwrthsefyll sychder. I gael y canlyniadau gorau, cae sy'n wynebu'r de i ffwrdd o goed fydd fwyaf addas ar gyfer blodau'r haul.

Cylchdro Cnydau

Mae blodau'r haul yn agored iawn i *Sclerotinia* a all fod yn risg i gnydau eraill sy'n cael eu tyfu yn yr un cylchdro, gan gynnwys tatws. Mae'n well osgoi cylchdroadau byr o bedair blynedd neu lai i leihau'r risg. Bydd nitrogen uchel yn y pridd hefyd yn lleihau'r cnydau, felly ceisiwch osgoi hau blodau'r haul ar ôl cnydau sy'n gadael gweddillion nitrogen mawr fel brassicas. Gall rheoli chwyn ar ôl sefydlu fod yn anodd oherwydd ychydig o chwynladdwyr cymeradwy sydd ar gael ar gyfer blodau'r haul, felly gall cyfnod braenar gaeafu cyn plannu fod yn ddefnyddiol wrth reoli chwyn glaswellt a llydanddail drwy ddefnyddio chwynladdwyr nad ydynt yn ddetholus.

Dewis Cyltifar

Mae amrywiaeth eang o gyltifarau ar gael, sy'n cynnig gwahanol feintiau pen ac arferion tyfu. Bydd cyltifarau naill ai'n cynhyrchu pen sengl (grandiflora) neu bennau lluosog ar un planhigyn (multiflora). Gall lliwiau'r blodau amrywio o oren llachar i hufen neu ambr tywyll. Os nad oes gennych lawer o le i'w tyfu, efallai yr hoffech ystyried plannu cyltifar melyn llachar - fel arall, gall stondin gymysg greu arddangosfa ddeniadol, yn enwedig ar gyfer safleoedd 'pigo eich hun'. Byddwch yn ofalus eich bod yn dewis cyltifarau sy'n addas i hinsawdd y DU, yn enwedig os ydyn nhw'n tyfu o hadau.

Trin y tir

Gellir tyfu'r rhan fwyaf o gyltifarau yn y cae rhwng diwedd y gwanwyn a dechrau'r gaeaf. Gellir targedu bylchau o 20 - 30cm rhwng planhigion, er y gellir defnyddio bylchau ehangach o 50cm ac uwch ar gyfer cyltifarau aml-ben mwy er y gellir defnyddio bylchau o dan 10cm ar gyfer mathau llai neu blanhigion sy'n cael eu tyfu ar gyfer cynhaeaf unigol. Bydd dwysedd planhigion da, gyda llai o le rhwng planhigion, yn lleihau maint y pen. Gall blodau'r haul gael eu tyfu mewn potiau hefyd a gall y cyfaint gwreiddio cyfyngedig leihau amseroedd cnydio ond bydd angen eu bwydo a'u dyrhau'n ofalus.

Gellir hau hadau hefyd mewn hambyrddau modiwlaidd i'w egino ar gyfer trawsblannu, neu blanhigion ifanc sy'n cael eu prynu gan ffrâm brifiant. Dylid cadw'r rhain yn gynnes os yn bosibl (24°C) ond gellir eu tyfu o dan blastig os yw ar gael. Bydd y rhain yn barod i'w trawsblannu ar ôl 3 - 4 wythnos ar ôl i'r ail ddeilen go iawn gael ei ffurfio (er na ddylid eu gadael yn hirach er mwyn osgoi ffurfio coesau gwan). Lluosogi i warchod egino cnydau cynnar cyn i'r risg o rew godi yn gynnar yn y gwanwyn. Fel arall, gellir drilio hadau yn uniongyrchol i ddyfnder o 5cm. Ar ôl eu sefydlu dylid tyfu planhigion ifanc o dan gnu os oes perygl o rew, neu dan rwyd i leihau'r risg o ddfrod adar.

Gellir hau hadau yn uniongyrchol i'r pridd hefyd, er ei bod yn well aros nes bod tymheredd y pridd yn cyrraedd o leiaf 6-8°C. Dylid hau hadau i ddyfnder o 2-5cm, gyda mwy o ddyfnder os yw'r pridd yn sych. Ar gyfer ardaloedd mwy o faint, gellir defnyddio driliau grawn neu ddriliau manwl (e.e. disg, gwregys neu niwmatig) ond mae cywirdeb y drilio yn hollbwysig gan na fydd y cnwd yn ehangu i lenwi bylchau. Mae paratoi gwelyau'r hadau yn dda yn hollbwysig, gyda gwead cadarn tebyg i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer pys neu fetys siwgr. Gall blodau'r haul fod yn sensitif iawn hefyd i gywasgu felly efallai y bydd angen trin y pridd yn addas cyn plannu. Gellir tyfu blodau'r haul nes eu bod yn aeddfed mewn twneli, yn enwedig os ydych chi'n bwriadu cynhyrchu'n gynnar neu'n hwyr yn y tymor, a gall hyn warchod rhag plâu, clefydau neu'r tywydd. Bydd blodau sy'n cael eu tyfu mewn twnnel yn dalach na'r rhai yn y cae, sy'n golygu y gallai fod yn well dewis cyltifarau mwy cywasgedig ar gyfer cynhyrchu mewn twnnel.

Maeth y cnydau

Mae gwreiddiau dwfn blodau'r haul yn rhoi mynediad i nitrogen yn ddwfn yn y pridd, felly gellir sicrhau cnydau addas o briddoedd sy'n isel o ran nitrogen heb ffrwythloni hyd yn oed. Gall nitrogen sy'n uchel yn y pridd leihau'r cnwd drwy annog llystyfiant i dyfu. Mae RB209 yn awgrymu nad yw'n debygol bod angen defnyddio mwy na 25 – 50 kg/ha. Bydd angen lefel isel o ffosfforws a lefel gymharol uchel o botasiwm i hyrwyddo blodeuo, ac mae RB209 yn awgrymu, ar gyfer cynnal a chadw, y dylid defnyddio 40-60 kg/ha ffosffad a photasiwm i gynnal y lefelau. Bydd priddoedd asidig iawn (islaw pH 5) hefyd yn peryglu'r cnwd o ddiffyg microfaethynnau, yn enwedig molybdenwm, copr a manganês. Gall diffyg boron fod yn risg sylweddol i briddoedd calchaid neu dywodlyd, gellir ategu hyn drwy ddefnyddio 1.2 kg/ha cyn drilio ar pH 7.5 neu'n is, tra gellir rhoi chwistrelli deiliol ar gnydau mewn priddoedd tywodlyd neu galchaid. Dylid cynllunio rhoi gwrtaith dair gwaith yn ystod y tymor cnydio - gwrteithiad sylfaen o ffosffad a photasiwm cyn plannu, gwrteithiad uchaf o nitrogen adeg sefydlu a chwistrell deiliol yn GE 2.5-3.2. Bydd y dull ffrwythloni yn amrywio rhwng tymhorau a safleoedd - er enghraifft gall bwydo cyn plannu weld mwy o effaith mewn gwanwyn oerach.

Cynaeafu

Er bod blodau'r haul yn fwy cadarn na blodau sy'n cael eu torri, mae'n rhaid bod yn ofalus wrth eu pigo a'u gwerthu. Bydd angen lle storio a chludo ychwanegol, a mwy o lafur i drin y cnwd o'i gymharu â chnydau eraill. Bydd angen rhoi'r coesau sydd wedi'u torri mewn dŵr cyn gynted â phosibl ar ôl eu pigo er mwyn osgoi gwywo'n gyflym. Ar raddfa fach, gall dyfrhau ychydig cyn pigo wella oes y blodau ar y silff ar ôl y cynhaeaf. Gellir torri blodau ar wahanol gamau, ond yn gyffredinol, gellir cael y perfformiad gorau pan gaiff blodau eu pigo pan fydd y petalau allanol yn cael eu hehangu 50-100% a 90° i'r pen - mae pigo'n gynharach yn fwy o risg o ran y blodyn yn agor yn llwyr. Gellir cadw'r coesau sydd wedi'u torri am hyd at wythnos mewn siop oer, gydag oes silff nodweddiadol o hyd at bythefnos gyda bwyd blodau addas. O ran gwerthu ar raddfa fach, efallai yr hoffech gyfyngu cynaeafau i gyd-fynd â chyfnodau o alw mawr (e.e. dros y penwythnos) i gyfyngu ar faint o amser y mae'r coesau'n cael eu storio ar ôl eu torri.

Plâu a Chlefydau

Gall ystod o rywogaethau o blâu a chlefydau beri problem i'r blodau haul. Gall gwllithod fod yn broblem benodol yn ystod camau cynnar y sefydlu. Gall plâu mwy (colomennod, cwingod, adar gwyllt) fod yn broblem yn ystod y plannu ac yn ystod yr aeddfedu. Tra gall rhai plâu pryfed achosi mân ddifrod (e.e. tortrix larvae, turiwr dail, clustogau Mair a gemau fforch arian), mae'r rhain yn annhebygol o fod yn broblem sylweddol ac ychydig o opsiynau rheoli sydd ar gael. Mae blodau'r haul mewn perygl o amrywiaeth o broblemau gyda chlefydau. Gall *Botrytis* achosi pydredd yn y pennau ac mae'n gyffredin os yw'r cnwd yn cael ei dyfu mewn amodau llaith, oer (15-25°C) a gall hyn newid lliw cefn y pen a lledaenu i'r petalau. Gall pydredd yn y coesau a'r pen hefyd gael ei achosi gan *Sclerotinia* yn sgil sglerotia yn y pridd, a fydd hefyd yn achosi gwywo a chwymp.



Pydredd Botrytis mewn blodau'r haul

Chwyn

Mae'n annhebygol y bydd chwyn yn creu problem unwaith y bydd y cnwd wedi'i blannu gan y bydd y canopi llydan a'r uchder yn drech na'r rhan fwyaf o chwyn. Serch hynny, yn ystod y broses, mae'r cnwd yn agored iawn i gystadleuaeth chwyn mor gynnar â'r bedwaredd wythnos ar ôl dod i'r amlwg. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn cnydau sydd ag awyriad pridd gwael neu dymheredd isel lle mae'r sefydlu'n araf. Bydd dyddiad plannu hwyrach yn caniatáu sefydlu'n gyflym wrth roi ffenest i reoli chwyn drwy dyfu a/neu chwynladdwyr nad ydynt yn ddetholus. Gellir defnyddio Pendimethalin (Stomp Aqua) ac Emerger (EAMU 1615/2009) cyn ehangu'r goes. Gall rheoli chwyn yn fecanyddol hefyd fod yn effeithiol iawn, yn enwedig o ystyried mai bylchau rhes lydan sydd orau ar gyfer blodau'r haul er bod rheoli cyn bod y chwyn yn ymddangos yn gallu lleihau'r angen i'w ddefnyddio ar ôl i'r chwyn ymddangos.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio cemegau amddiffyn cnydau yn unol ag argymhellion y label, y dylid ymgynghori â hwy cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion y label i'w defnyddio ar gnydau ond fe'u caniateir trwy Estyniad Awdurdodi ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU o dan 'Y Trefniadau Tymor Hir Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002)'. Yn yr achosion hyn, mae defnyddio'r plaladdwr yn cael ei wneud yn ôl risg y defnyddiwr ac nid yw Tyfu Cymru yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnyddio o'r fath. Mae'r cyfeiriadau at

gymeradwyaethau ar y label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr mewn cnydau pwmpen ac maent yn gywir adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Gall y rhain newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr ofyn am gyngor gan gynghorydd BASIS cymwysedig - mae ar gael yn rhad ac am ddim i dyfwrwr cymwys drwy raglen Tyfu Cymru. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – cyngor e-bost/ffôn ar gael hefyd.